

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyrol 2 Rhif 7

Yn rhad ac am ddim

Hydref 2021



Gerallt Gymro - Rhan 2

Gerallt Gymro – Rhan 2

gan Rob Evans

Ar ddiwedd rhan 1 roedd Gerallt wedi cael ei ddyrchafu i fod yn Archddiacon Aberhonddu ac wedi cyrraedd y swydd yna wrth fod yn eithaf llym efo clerigwyr yr Eglwys, yn enwedig Archddiacon blaenorol Aberhonddu. Doedd Gerallt ddim yn un i gymryd carcharorion yn ei ymgyrch i gael perffeithrwydd. Ond ym 1184 roedd Harri II wedi penderfynu bydd Gerallt yn ddyn da i fod yn ŵr lys iddo. Ond pan mae rhywun wedi ymdrechu gymaint i wella safonau mae'n anodd gadael gwaith heb ei orffen. Er mwyn sicrhau bod pawb yn cadw at y moesau da roedd o'n gobeithio roedden nhw wedi datblygu mi wnaeth o ysgrifennu llyfr o'r enw Gemma Ecclesiastica - The Jewel of the Church. Yn naturiol doedd o ddim eisiau eu safonau i lithro.

A dyna ni, erbyn iddo fod yn 38 oed roedd y bachgen bach wedi ei eni ym Maenorbŷr yn crwydro efo'r brenin ei hun o gwmpas ei

deyrnas. Doedd hynny ddim yn waith hawdd achos roedd y deyrnas yna yn ymestyn o ffiniau'r Alban yr holl ffordd i'r Pyreneau. Yn waeth na hynny roedden nhw'n mynd ar garlam i bob man ac roedd Harri yn ddyn oedd bron byth yn eistedd - ac os nad oedd y brenin yn eistedd, doedd neb yn eistedd! Dyma beth ddeudodd ŵr lys arall, Walter Map, am beth roedd rhaid iddyn nhw ddiodef: "We wear out our horses in vain and entirely unfruitful haste we are borne on our insane course. Truly the court is a place of punishment, and only milder than Hell in that those it torments can at least escape by dying." Mae hynny'n dweud y cwbl!

Cyn i fi fynd ymlaen mae'n rhaid i mi esbonio dipyn am dactegau'r Normaniaid ynglŷn â Chymru. Roedd y Normanaidd wedi cipio Lloegr yn gyfan gwbl ond roedd Cymru yn fwy o broblem. Achos hynny roedd cestyll wedi eu codi ar y ffin. Arglwyddi'r Mers oedd yn berchen y cestyll. Roedd gan Arglwyddi'r Mers yr hawl i ymosod ar diroedd Cymru a chadw nhw iddyn nhw ei hunain, doedden nhw ddim yn cipio nhw

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ar gyfer y Brenin. Ond, wrth gwrs doedd ein tywysogion ddim yn fodlon colli tiroedd ac yn gwneud pob ymdrech i ail gipio nhw. Roedd llawer o ymosod yn mynd ymlaen ac roedd hyn yn gostus iawn i Arglwyddi'r Mers.

Yn y cyfamser roedd un o frenhinoedd Iwerddon, Dermot MacMurrough, yn cael trafferth cadw ei deyrnas ac wedi cael y syniad o ofyn i un o'r Arglwyddi, Robert FitzStephen, am gymorth. Doedd hyn ddim yn beth doeth wrth gwrs ond yn amlwg roedd o'n despret. Aeth Robert FitzStephen gyda'i farchogion i roi cymorth i'r brenin druan. Doedd o ddim yn hir iawn cyn oedd beryg iddyn nhw goncro'r holl wlad. Doedd Harri II ddim yn hapus o gwbl ond roedd o'n rhy brysur yn carlamu dros ei deyrnas. Beth oedd i'w wneud?

Mi anfonodd ei fab John a oedd yn 19 ar y pryd ac anfonodd Gerallt hefyd i gadw llygad arno. Y pwrpas oedd hawlio'n holl wlad i'r Goron. Aeth pethau ddim yn dda. I ddechrau roedd John a'i fyddin yn creu llawer o broblemau wrth fod yn sarhaus tuag at y Gwyddelod. Wrth gwrs doedd yr Arglwyddi ddim yn hapus pan oedd o'n trosglwyddo stadau'r Arglwyddi i'w ddynion ei hun.

Erbyn deufis roedd John a'i fyddin wedi gadael.

Ond mi wnaeth Gerallt aros yn Iwerddon am ychydig, efallai roedd o'n osgoi'r hunllef o ail ymuno â llys Harri neu roedd o eisiau gwybod mwy am Iwerddon. Beth bynnag oedd y rheswm mi wnaeth Gerallt wir fwynhau siarad efo'r Gwyddelod a gwrando ar eu straeon. Ond nad oedd o'n sylweddoli gymaint roedden nhw'n hoffi ychwanegu at eu straeon. Yn fwy anffodus byth mi wnaeth Gerallt ysgrifennu am ei amser yn Iwerddon - The Topography of Ireland. Un o'r straeon glywodd o oedd "Barnacle Geese hatch from barnacle shells". Yn waeth byth mae'r stori yn ei llyfr ac yn dangos, hyd at rŵan, pa mor hygoelus oedd o.

Does neb gwell na'r Gwyddelod am ddweud stori!

Yn y rhan nesaf byddaf yn sôn am ei daith fawr trwy Gymru.

Bocs-wraig

gan Shelagh Fishlock

Babi bach yn dridiau oed
Ym mreichiau mam-gu, tad-cu.
Bochau mor feddal, bywyd mor fregus,
A llygaid sy'n holi'r dyfodol.

Merch fywiog ar y maes chwarae,
Pêl-rwyd, pêl-droed, ym mhob tîm.
Pengliniau mor fwdlyd, cyhyrau mor gryfion,
Yn syllu ar ei uchelgais.

Bocs-wraig dewr, barod i frwydro,
Cymraes falch a merch y cwm;
Dyrnau lan i ddathlu ennill,
Yn joio ei phresennol.

Wyres annwyl â medal aur
Ym mreichiau mam-gu, heb dad-cu;
Bochau gwlyb, llygaid caredig,
Cofion melys y gorffennol.

Nodyn: Enillodd Lauren Price o Ystrad Mynach, Sir Caerffili fedal aur yn y Gemau Olympaidd 2021. Cafodd hi ei magu gan ei mam-gu a thad-cu, ond bu farw ei thad-cu yn 2019.

Stori o'r ardd

gan Susan Gilson

Roeddwn i newydd ddychwelyd adref o daith gerdded ar draws y clogwyni ac roeddwn i yn y gegin yn llenwi'r tegell am gwpaned o de, mawr oedd ei angen. Roedd y tegell newydd ferwi pan glywais sŵn cynhyrfus uchel iawn. Sŵn adar yn amlwg, ond nid y sain swynol felys sydd i glywed fel rheol ond sŵn ofnadwy sy'n peri gofid a dychryn mawr, sŵn na chlywais i erioed o'r blaen. Gan feddwl y gallai fod cath fawr yn eu bygwth, brysiats mas y bac.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Roedd deg neu fwy o adar y to wedi eu leinio ar y ffens ac i gyd yn sgrechian yn wyllt ar rywbeth yn yr ardd. Edrychais o gwmpas a gwelais wiwer lwyd fawr yn rhedeg yn ôl ac ymlaen ar ben blwch storio'r ardd. Roedd yn amlwg ei fod wedi cynhyrfu ond stopiodd pan welodd fi, ei glustiau'n sefyll yn unionsyth a'i lygaid bach yn syllu'n syth arnaf. Beth ar y ddaear oedd yn digwydd? Roedd yr adar dal yn clebran mewn cyffro. Pam roedd y wiwer wedi cynhyrfu cymaint? Es i rownd y cornel i weld a oedd unrhyw beth allai fod yn achosi'r holl gynnwrf hyn. Dim byd i'w weld. Edrychais yn ôl ac yno yr oedd tarddiad yr holl gyffro.

Rwy'n bwydo'r adar yn rheolaidd (yn gywir neu'n anghywir) ac roeddwn i wedi archebu bag mawr o bysgnau yn barod am y gaeaf. Roedd yn amlwg wedi cyrraedd tra roeddwn i allan ac yn nawr roedd sach hesian llawn o'r bwyd adar yn pwyso yn erbyn ochr y blwch storio. Roedd yr arogl wir yn gryfach o lawer na'r pysgnau hallt rydyn ni'n eu bwyta. Hwn oedd wedi denu'r wiwer a'r adar.



Roedd yr adar a'u galwad blin, uchel yn ceisio rhybuddio'r wiwer i gadw i ffwrdd o'u bwyd. Efallai hefyd, eu bod nhw'n fy rhybuddio i a gofyn am fy help. Beth bynnag oedd y rheswm fe weithiodd yn sicr. Roedd rhaid i fi wneud rhywbeth achos nid oedd y wiwer yn poeni dim ac yn edrych arnaf yn herfeiddiol. Edrychais yn ôl arno a dweud ychydig eiriau miniog yn Gymraeg ac ar yr un pryd yn clapio fy nwylo'n uchel. Gwnaeth hynny'r tric; aeth y wiwer i ffwrdd ar garlam ac wrth gwrs diflannodd yr adar ar yr un pryd, ar wahân i un. Arhosodd nes i mi agor caead y blwch storio a rhoi'r sach o bysgnau yn ddiogel y tu mewn. Yna i ffwrdd â fo.

Es yn ôl i'r gegin i wneud fy nghwpanaid o de a meddwl pa mor ddeallus ydy'r adar yng Nghymru!

Mae'r pysgnau yn dal i gael eu storio. Fy nghasg nesaf fydd i lenwi'r porthwyr adar sydd yn rhai newydd. Maen nhw fod i atal gwiwerod. Mae hynny i'w weld. Byddaf yn rhoi gwybod i chi!

Darllen yn y Gymraeg

gan Shelagh Fishlock

Dych chi'n hoffi darllen? Beth sy'n well gyda chi, nofelau, cylchgronau neu lyfrau ffeithiol? Pan ddechreuais i ddysgu Cymraeg, ro'n i'n edrych ymlaen at ddarllen yn yr iaith, ond cyn bo hir sylweddolais fod hynny'n anodd!

Yn y dosbarth, ar Duolingo, neu "Say Something in Welsh", dyn ni'n dysgu ac yn ymarfer siarad Cymraeg (iaith lafar). Wrth gwrs, hynny yw'r peth pwysicaf – dyn ni i gyd eisiau siarad, a deall pobl eraill. Ond pam mae hi'n mor anodd dechrau darllen erthyglau, arwyddion a llyfrau Cymraeg?

Mae iaith ysgrifenedig ym mhob iaith yn fwy anodd na'r iaith lafar. Mae hi'n defnyddio geiriau ffurfiol, a gramadeg mwy cymhleth. Ond yn Gymraeg mae'r iaith ffurfiol yn wahanol iawn i'r iaith lafar, ac i ddysgwyr, yn aml iawn, mae hi'n rhyfedd, weithiau bron yn annealladwy. Er enghraifft, dyma adolygiad o lyfr newydd Lleucu Roberts: "Gwyddom ein bod yn darllen gwaith arbennig iawn. Ond.....mae mwy fyth i'w drysori a rhyfeddu ato, sy'n codi Y Stori Orau i dir uwch nas cyrhaeddwyd ond yn anaml o'r blaen." Mae problemau hefyd gydag iaith lenyddol. Yn y darn yma, mae Angharad Price yn sôn am gofion cefn gwlad: "Bu amser pan ddyrchafwn fy ngolygon y tu hwnt i'r nant a'r cwm tlws a ddyfrheir ganddi."


Mae problem arall hefyd – tafodiaith. Fel arfer, yn Saesneg, mae pobl yn ysgrifennu yn "Standard English," ond mae mwy o ffurfiau gwahanol yn Gymraeg. Mae'n bosib i ddysgwyr ddod i arfer ar hynny, ond dyw e ddim yn hawdd ar y dechrau.

Ac mae'r iaith lafar yn gallu creu problemau hefyd. Weithiau mae pobl yn ysgrifennu geiriau fel maen nhw'n siarad: "yn 'rysgol," (yn yr ysgol) "ti 'di 'neud," (rwy't ti wedi gwneud) "bethe" (bethau). A nawr mae hefyd "iaith yr ysgol" gyda llawer o eiriau Saesneg. Beth am

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

hynny? (Tu ôl i'r Awyr gan Megan Hunter): (Mae Anest yn nhŷ ei ffrind) “Dwin ffolowio fo...at rwm fo. Man agor drws.....ond sbïo i ffwr o wyneb fi. idk ella ma rwm fon mess....a man embarysd o hynna (which dyla fo ddim fod ofysli...)

Ond peidiwch â digalonni. Hyd yn oed ar lefel mynediad mae llawer o adnoddau ar gael i'ch helpu chi ddechrau darllen. Mae llyfrau sy wedi cael eu hysgrifennu i ddysgwyr o bob lefel, y gyfres “Amdani,” ac eraill gan Y Lolfa. Un o fy hoff lyfrau yw “e-ffrindiau” gan Lois Arnold, stori am ddwy ferch sy'n dysgu Cymraeg - un yng Nghymru a'r llall yn Awstralia. Mae hi ar lefel mynediad, a'r iaith yn syml iawn, ond mae'r stori'n werth ei darllen hyd yn oed ar ôl sawl flwyddyn yn dysgu Cymraeg. Wedyn mae cylchgrawn “Lingo Newydd,” gydag erthyglau ar lefel mynediad, sylfaen a chanolradd gyda geirfa ar bob tudalen, ac ar-lein mae “Parallel Cymru” yn cyhoeddi erthyglau dwyieithog. Ac wrth gwrs, peidiwch ag anghofio'r Wennol!



Gan ddechrau gydag adnoddau fel hyn, byddech chi'n gallu dechrau darllen yn fwy hyderus, ac yn ymdopi ag iaith ffurfiol, tafodiaith a “Wenglish.”


Mentro

Ydych chi wedi meddwl am sefydlu grŵp er mwyn sicrhau eich bod chi'n cadw cysylltiad efo'ch gilydd ac, wrth wneud hynny, i gadw'ch Cymraeg i fynd?

Sut i ddechrau? Digon hawdd, cyfnewid rhifau ffôn a phenderfynu cyfarfod mewn caffi er mwyn siarad am y peth!

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Mis Medi 2021 - Sgwrs ar Zoom “Calon Blwm” gan Cyril Jones



Ro'n ni'n ddiolchgar iawn bod Cyril yn gallu ymuno â ni i siarad am ei lyfr, “Calon Blwm”, sy'n esbonio hanes ardal Dylife a mwyngloddio ym Maldwyn.

Roedd y diwydiant plwm yn bwysig iawn ym Maldwyn, yn enwedig yn ystod yr oes Fictoraidd ond, ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, dirywiodd y diwydiant oherwydd mewnfurion rhatach. Yn anffodus, does dim llawer o olion ar ôl o'r diwydiant pwysig ond mae llyfr Cyril yn disgrifio hanes yr ardal.

Canolbwyntiodd Cyril ar bentref bach Dylife rhwng Llanidloes a Machynlleth. Ar ei anterth roedd ysgol, 4 addoldy a 4 tafarn yn y pentref a mwy na 1000 o bobl yn byw ac yn gweithio yno. Gweithiodd rhai o bobl dan ddaear a rhai ar y fflowrin yn golchi'r plwm. Defnyddion nhw bŵer dŵr yn lle dod â glo i fyny'r mynydd ac roedd yr olwyn ddŵr enfawr yn enwog y pryd hynny. Mae'n ddiddorol i wybod bod nhw'n defnyddio gwrhydau fel mesur achos roedd y bos yn gynforwr, er bod nhw'n defnyddio gwrhydau ar gyfer mwyngloddio yng Nghernyw hefyd. Doedd yr amodau byw a gweithio ddim yn dda. Doedd dim digon o dai yn y pentref ac ar ôl i weithiwr orffen ei shifft, cymerodd e'r gwely o rywun a oedd yn dechrau ei shifft. Fel dwedodd Cyril “doedd y gwelyau yno byth yn oer” a dyna un rheswm bod twbercwlosis yn broblem fawr. Bu farw mwy o bobl achos twbercwlosis na thrwy gweithio yn y diwydiant.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Perchnogion y gwaith yn Nylife oedd Williams and Pugh yn y dechrau, ond wedyn Richard Cobden oedd y perchennog ar ôl iddo fe briodi Catherine Williams. Perswadiodd Cobden John Bright i redeg y gwaith. Felly mae cysylltiad rhwng y pentref bach, Dylife, â'r radicalaidd enwog, Cobden a Bright.

Yn ogystal â'r bywyd diwydiannol, roedd bywyd diwylliannol yn Nylife trwy eisteddfodau. Perfformwyr aml oedd John Ceiriog Hughes a Richard Davies, Mynyddog. Roedd Ceiriog yn fardd poblogaidd (Nant y Mynydd er enghraifft) ac ysgrifennodd e'r telynegion gwreiddiol i ganeuon fel Clychau Aberdyfi. Roedd Mynyddog yn dalentog hefyd ac ysgrifennodd e'r telynegion i ganeuon poblogaidd fel Sosban Fach a Myfanwy.

Diolch i Cyril am y sgwrs. Roedd yn ddiddorol iawn i ddysgu am hanes cymdeithasol, diwydiannol a diwylliannol pentref bach, Dylife.

Digwyddiad nesa ydy:-

Nos Lun, 11 Hydref, ar Zoom am 7 30 yh – Andrew Green yn siarad am ei lyfr, “Cymru mewn 100 Gwrthrych”.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â nestahumphreys@btinternet.com neu edrych ar ein tudalen Facebook.

<https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>

Dod i adnabod eich ardal yn well

Beth am ddod at eich gilydd i sefydlu grŵp cerdded, does dim rhaid i chi gerdded yn bell ond mae'n gyfle da i adnabod eich gilydd yn well a hefyd i ddod ar draws llefydd newydd i gerdded. Trïwch gael arweinydd gwahanol bob wythnos er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i arwain.

Pwy ag wŷr ble fydd hynny'n arwain?

Wedi anghofio pen-blwydd?

Yn sydyn dach chi'n sylweddoli bod pen-blwydd eich chwaer yn agosáu ac, ar ôl chwilio ym mhob man does dim byd sy'n gwneud y tro. Dach chi mewn panig! Os cardiau Cymraeg dach chi angen beth am fynd yn syth at eu gwefan ardderchog nhw www.cardiaucymraeg.com. Mae cardiau yno ar gyfer bob achlysur ac maen nhw'n anhygoel o gyflym!
Cefnogwch y byd Gymraeg.



A wnewch chi basio'r Wennol ymlaen os gwelwch yn dda!

Dw i eisiau cael mwy o bobl i'w ddarllen a mwy o bobl i ysgrifennu erthyglau. Beth amdanoch chi? Byddech chi'n hapus i ysgrifennu rhywbeth? Mae'n hawdd. Meddyliwch fod chi'n siarad efo ffrind ac yn sôn am eich gwyliau neu beth bynnag. Wedyn rhwch hynny ar bapur, bydda i'n gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn felly, peidiwch â phoeni!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Tywydd Garw

Mae hi'n bwrw glaw heddiw. Mae hi wedi bod yn bwrw glaw trwy'r nos. Mae'r glaw yn tywallt i lawr. Dw i'n clywed y ceir yn sbasio heibio.

Roeddwn i eisiau mynd allan ar y beic heddiw ond mae hi'n llawer rhy wlyb. Beth dw i'n mynd i wneud? Aros yn y tŷ?

Na, dw i ddim eisiau aros yn y tŷ. Mae aros yn y tŷ yn ddiflas. Mae'n rhaid i mi fynd allan!

Dw i'n mynd i chwilio am fy nillad dal dŵr. Maen nhw yma yn rywle. Ond ble?

Dw i'n gobeithio bydd hi'n braf eto fory.

Tywydd garw - awful weather

Tywallt - to pour

Diflas - boring

Dillad dal dŵr - waterproofs

Ystido Bwrw

Eto mae hi wedi bod yn bwrw glaw dros nos. Dw i eisiau cael torri fy ngwallt heddiw. Mae'r barbwr yn Ystumllwynarth, neu Oystermouth yn Saesneg. Dydy hi ddim yn bwrw glaw ar hyn o bryd ond mae cymylau tywyll yn yr awyr.

Beth i'w wneud?

Mae'n rhaid i mi gael torri fy ngwallt, mae'n edrych yn flêr.

Felly ffwrdd â fi. Dw i'n parcio yn y maes parcio uwch ben y traeth. Dw i'n mynd i brynu tocyn, rhoi fy ngharden credyd yn y peiriant a chael y tocyn.

Yn sydyn mae hi'n dechrau bwrw glaw, yn drwm! Mae gen i bum munud o gerdded i gyrraedd y barbwr ond dw i wedi talu £1.50 felly mae'n rhaid i fi fynd. Mae hi'n ystido bwrw.

Dw i'n gwisgo cot ond mae fy jîns yn wlyb sop ond mae fy ngwallt yn daclus unwaith eto!

Blêr - untidy

Ffwrdd â fi - off I go

Uwch ben - above

Peiriant - machine

Ystido bwrw - hammering down

Gwlyb sop - soaking wet

Chwarae Pêl

Dw i'n eistedd mewn cae ar gyrion Dinbych y Pysgod. Mae hi'n ddiwrnod cynnes a braf. Trwy fwlch yn y coed dw i'n gweld y môr ac ynys - Ynys Bŷr. Dw i hefyd yn gweld meindwr eglwys Santes Fair.

Mae rhes o gadeiriau yma a dw i'n eistedd i fwynhau'r tywydd braf. Mae'r haul yn gynnes a dw i bron yn mynd i gysgu.

Ond mae cŵn fy ffrind efo ni ac mae un, Penny, eisiau i mi daflu pêl. Dydy Penny ddim yn gallu rhedeg yn bell felly dw i'n taflu'r bêl tua phum medr i ffwrdd.

Mae hi'n cerdded yn araf deg ac yn codi'r bêl yn ei cheg. Mae hi'n cerdded yn ôl ataf fi. Ond nad ydy hi'n rhoi'r bêl wrth fy nhraed.

Mae hi'n cerdded tu ôl i fi ac yn gosod y bêl ar y llawr tu ôl i'r gadair.

Chwarae teg, mae hi'n meddwl os oes rhaid iddi hi fynd i nôl y bêl mae'n rhaid i mi wneud dipyn o ymdrech hefyd!

Ar gyrion - on the outskirts

Bwlch - gap

Ynys Bŷr - Caldey Island

Meindwr - spire

Ymdrech - effort

Remembering words and patterns that you have learned in class can be difficult at first but once you get used to seeing them for real then things get easier. People who go to France to learn the language will achieve nothing unless they immerse themselves in the language. Read as much as you can, not so that you understand the story but to just get used to seeing the words


Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Blaenau Ffestiniog

Mae'n werth mynd i Flaenau Ffestiniog!
Mae siop llawn llyfrau yna, rhai newydd neu ail law. Llauer o Gymraeg i'w glywed, felly llauer o gyfleoedd i'w siarad. Ardal arbennig o dda i gerdded ynndi hefyd.

SIOP LYFRAU'R HEN BOST


Llyfrau Newydd ac Ail Law / New and Second Hand Books



45 Stryd Fawr
BLAENAU FFESTINIOG
Gwynedd
LL41 3AA

Ffôn/Tel: 01766 831802
Ebost/Email: henbost.blaenau@gmail.com

Ac os dach chi eisiau rywle i aros! Beth am ...



CABAN GWYLIAU HOLIDAY CABIN

Hen Gapel
Cwm Teigl
FFESTINIOG
Gwynedd
LL41 4RF

Ffôn/Tel: 01766 762243
Ebost/Email: elin.hengapel@gmail.com

Chwedl Llyn y Fan Fach

gan Dilys Griffiths

Mae gennym lawer o chwedlau diddorol yng Nghymru, ond mae un yn arbennig sy'n gysylltiedig â hanes sy'n wir, ac sy'n bwysig i'n cenedl ac i feddyginiaeth hefyd. Dw i'n sôn wrth gwrs am Feddygon Myddfai, a'r chwedl am Llyn y Fan Fach sydd wedi ei leoli mewn man hyfryd ger Llanddeusant yn Sir Gaerfyrddin. Pentref bach yng nghanol y wlad ychydig filltiroedd tu allan i dref hanesyddol Llanymddyfri ydy Myddfai gyda Llyn y Fan Fach ychydig filltiroedd i ffwrdd.

'Sgwn i a wyddoch chi hanes y chwedl o gwmpas Llyn y Fan Fach ac am y forwynig yn dod allan o'r llyn? Y stori yw mai hi oedd yn fam i Feddyg cyntaf llinach Meddygon Myddfai?



Mae'r chwedl yn sôn am fab fferm o Flaen Sawdde - ardal o gwmpas Llanddeusant a fyddai'n edrych ar ôl ei anifeiliaid ger Llyn y Fan Fach. Un diwrnod welodd ferch ifanc brydferth yn camu allan o'r llyn. Syrthiodd mewn cariad â hi'n syth, a gan obeithio ei chael yn wraig iddo, fe gynigodd darn o fara iddi, ei wrthod gwnaeth gan ddweud "Cras dy fara, nid hawdd fy nala." Y diwrnod wedyn aeth nôl ati gyda darn o fara newydd ei bobî, ei hateb oedd, "Heb ei bobî y mae dy fara, ni dderbyniaf di". Ar ei drydedd gais o gynnig bara iddi fe'i derbyniodd gan ei fod yn berffaith iddi ac fe gytunodd i'w briodi ar un amod - petai ef yn ei tharo tair gwaith heb reswm yna byddai'n dychwelyd nôl i'r llyn gyda'i heiddo. Daeth a gyrr o wartheg gwynion gyda hi yn ogystal â defaid ac anifeiliaid eraill yn rhodd briodas gan ei thad.

Ymgartrefodd y pâr priod mewn fferm o'r enw Esgair Llaethdy lle oeddynt yn hapus am flynyddoedd a chael tri o feibion. Un diwrnod fe wnaeth y gŵr ei tharo'n ysgafn â maneg ar y ffordd i fedydd. Tarwyd hi'n ysgafn gan ei gŵr yr ail waith gan ei bod yn crio mewn priodas ac iddi ddweud mai dechrau gofidiau i'r pâr oedd hwn, ac eto'r drydedd waith pan fu'n chwerthin mewn angladd ac iddi egluro nad oes gan y meirw ofidion. Ar ôl y drydedd waith iddi gael ei tharo gan ei gŵr, yn ôl ei haddewid fe wnaeth ddychwelyd i'r llyn ynghyd a'r holl anifeiliaid a ddaeth gyda hi, ac fe'i galwodd yn unigol yn ôl eu henwau fel hyn -

Mu wlfrech, moelfrech,
Mu olfrech, gwynfrech...

Gyda'r tarw gwyn

O lys y Brenin,

A'r llo du bach,

Sydd ar y bach,

Dere dithe, yn iach adre!


Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mae'n dweud iddi ymddangos sawl gwaith i'w mab hynaf ar ôl ei diflaniad gan roi iddo ryseitiau meddyginiaethol ar gyfer iachau. Dangosodd iddo ymhle i gasglu'r llysiâu a phlanhigion llesol yma ar gyfer y meddyginiaethau, man yr adnabyddir fel Pant y Meddygon yn ardal Myddfai. Hyd yn oed os dewiswn i beidio credu'r chwedl, mae'n ffaith bod, yn ystod y cyfnod yma, feddygon a llinach o feddygon galluog iawn yn byw yn yr ardal, a'u bod hwy yn gyfrifol am gasglu a chofnodi meddyginiaethau a gafodd eu defnyddio ar hyd y canrifoedd. Mae'r ffaith yma yn rhoi treftadaeth feddyginiaethol Lysieuol cryf inni sy'n dyddio nôl i'r 12fed Ganrif. Dywedir i Rees Williams o Fyddfai fod yn un o'r Meddygon, ac mae'n debyg mai ei ddiweddar orwyr, Rice Williams MD o Aberystwyth a fu farw yn 1842, oedd yr olaf yn llinach Meddygon Myddfai.

Ac am Feddygon Myddfai byddaf yn sôn yn yr erthygl nesaf.

Henriet y Syffrajét: gan Angharad Tomos

Adolygiad gan Jan Hill-Tout



Mae'r llyfr yn dechrau ym 1914 gyda disgrifiad pwerus o'r gweithrediad o fwydo menywod, ar streic newyn, yn y carchar ac yn gorffen gyda'r carcharorion yn siarad am y dyfodol ar ôl i'r streic ddod i ben. Henriét a Gladys yw'r carcharorion sy'n siarad, ffrindiau gorau o ogledd Cymru, ac mae'r llyfr yn adrodd y stori trwy eu llygaid nhw ac yn esbonio sut maen nhw wedi mynd o bentref bach yn y cefn gwlad i fod yn syffrajets.

Mae bob pennod yn disgrifio digwyddiadau yn eu bywydau sy'n dylanwadu ar eu meddyliau, teimladau ac ymddygiad. Mae strwythur y llyfr yn eithaf syml gyda'r rhan fwyaf o'r 38 pennod fer yn disgrifio rhai profiadau'r cymeriadau pennaf a beth gawson nhw eu dysgu o'r herwydd. Ar y ffordd yna aeth Henriét a Gladys o roi posteri yn y pentref gyda'r slogan 'y fôt i ferched', yr holl ffordd at losgi tŷ newydd Lloyd George yn Llundain ac wrth gwrs ar y diwedd cawson nhw eu harestio.

Bydd rhan fwyaf o ddarllenwyr yn gwybod am y syffrajets ac mae stori yn eithaf syml i ddilyn gan ddysgwyr, gydag un syniad pwysig ym mhob pennod fel arfer. Ond mae'r pynciau yn arwyddocaol ac yn gymhleth, ac maen nhw'n adlewyrchu'r sefyllfaoedd a'r agweddau cymdeithasol ar y pryd, yn enwedig yng Nghymru. Mae amrywiaeth o themâu yn cael eu trafod fel tlodi, cyfeillgarwch, cam-drin domestig a realpolitik, ac ar y diwedd mae popeth yn dod wrth ei gilydd a dyn ni'n gallu deall gweithredoedd Henriét a Gladys.

Er fy mod wedi darllen am y syffrajets yn ystod fy mywyd, mae'r llyfr hwn yn cynnwys llawer o wybodaeth a manylion newydd i fi. Er enghraifft maen nhw'n siarad am agweddau pobl gogledd Cymru i'r ILP (Independent Labour Party), pwysigrwydd Lloyd George i bobl Cymru a gêmâu gwleidyddol roedd yn eu cysylltu nhw a'r mesur. Hefyd, yn ogystal â geirfa newydd des i o hyd i gymaint o ymadroddion ac idioma defnyddiol i fi fel dysgwr, er enghraifft 'ymhen hir a hwyr', 'teimlo ym mên fy esgryn', 'gwirioni eich pennau', 'holl ofidiau'r byd ar ei hysgwyddau' a 'cyrraedd pen a thennyn'.

Mae'r llyfr yn 222 tudalen o hyd, yn gynnwys rhai ffotograffau a lluniadau ac mae'r testun wedi'i osod yn dda. Dw i'n darllen yn araf a heriais i fy hun i ddarllen un bennod pob dydd dros yr haf. Roedd tipyn o sialens i fi ond es i ymlaen achos daliodd fe fy sylw, a dw'n hapus i gymeradwyo fe i ddysgwyr eraill fel ffordd o ddysgu'r iaith a hefyd i ddysgu am hanes cymdeithas Cymru.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Hanes Y Gymraeg Yr Oesoedd Canol

gan Martin Jones

Mewn erthygl flaenorol, gwelon ni sut esblygodd yr iaith Frythoneg i mewn i'r Gymraeg Cynnar erbyn tua 550. Dros y canrifoedd dilynol, parhaodd yr iaith i esblygu, gan gyrraedd yr ail gam yn ei datblygiad yn y nawfed ganrif wrth i'r Gymraeg Cynnar esblygu i mewn i'r Hen Gymraeg. Ac mae tystiolaeth bod y Gymraeg wedi dod yn iaith lenyddol, hyd yn oed ar y cam cynnar hwn yn ei datblygiad. Er enghraifft, mae Llyfr Coch Hergest, wedi'i ysgrifennu tua 1400, yn cynnwys cerddi cysylltiedig â sagâu Llywarch Hen a Heledd a gafodd eu cyfansoddi, yn ôl pob tebyg, yng nghanol y nawfed ganrif. Mae'r cerddi hyn wedi cael eu disgrifio fel bod "ymhlith gogoniannau pennaf llenyddiaeth Gymraeg."

Roedd yr iaith hefyd wedi datblygu i fod yn iaith gyfreithiol. Mae cyfreithiau Hywel Dda (Brenin Cymru gyfan tua chanol y ddegfed ganrif) yn cael eu hystyried i fod ymhlith creadigaethau mwyaf ysblennydd y diwylliant Cymraeg.

Yn 852, dechreuodd ymosodiadau ar Gymru gan y Llychlynwyr, a pharhaodd y rhain am y ddau gant o flynyddoedd dilynol. Yn ystod y cyfnod hwn, sefydlodd y Llychlynwyr mewn nifer o leoedd yng Nghymru. Ond yn wahanol i Loegr, lle cafodd llawer o eiriau cyffredin (ee husband, ugly, rotten) eu benthyca o'r ieithoedd Llychlynnaidd, dim ond un gair Cymraeg (iarll) sy'n dod yn bendant o'r iaith yma. Prif etifeddiaeth y Llychlynwyr yng Nghymru oedd enwau lleoedd, gan gynnwys Swansea, Anglesey, ac ynysydd fel Skomer a Skokholm.

Ar drothwy'r goncwest Normanaidd, Cymraeg oedd iaith bob dydd mwyaf y boblogaeth yng Nghymru, ac yn wir lawer o bobl yn y tiroedd ffiniol dros Glawdd Offa hefyd. Yn Lloegr, collodd yr iaith Saesneg dir i Ffrangeg Normanaidd, ond roedd y sefyllfa'n wahanol yng Nghymru. Gwnaeth y Normanaidd oresgyn dim ond rhan o Gymru: ardal y ffin, ardaloedd arfordir y de, ac yn y pen draw ardaloedd arfordir Dinbych a Fflint yn y gogledd. Cafodd yr ardaloedd hyn eu trefnu i mewn i arglwyddiaethau oedd yn cynnwys dwy ran: yr "Englishry" a'r "Welshry".

Daeth yr arglwyddi Normanaidd â'u dilynwyr ac ymsefydlwyr eraill i mewn i'r "Englishries", ac o ganlyniad disodlwyd Cymraeg gan Ffrangeg (iaith yr arweinwyr) a Saesneg (iaith rhan fwyaf

yr ymsefydlwyr), yn enwedig mewn ardaloedd ffrwythlon fel Bro Morgannwg, Penrhyn Gŵyr, a De Penfro. Ond yn y "Welshries" ac yng ngweddill Cymru, roedd mwyaf y Cymry yn uniaith Gymraeg.

O ran yr iaith lafar, roedd nifer o dafodieithoedd yn cael eu siarad, er enghraifft Gwyndodeg yng Ngwynedd a Gwenhwysseg yng Ngwent. Yn ei "Ddisgrifiad o Gymru" ym 1194, roedd Gerallt Gymro o'r farn bod yr iaith yng Ngogledd Cymru "yn fwy dillyn, yn goethach, ac yn fwy canmoladwy", ond taw'r iaith yng Ngheredigion ydy'r iaith "arbenicaf a mwyaf canmoladwy".

Ond os ar lafar roedd amrywiaeth o dafodieithoedd, dim ond un iaith lenyddol oedd, ac yn ystod yr Oesoedd Canol ffynnodd yr iaith a chynhyrchwyd rhai o weithiau rhyddieithol a barddol gorau'r genedl..

Cafodd beirdd eu noddi, yn wreiddiol gan y tywysogion brodorol ond yn hwyrach gan yr uchelwyr, ac roedden nhw'n creu cerddi ar "raddfa sy'n ymylu at fod yn ddiwydiannol" yn ôl Barry J. Lewis. Ymhlith y beirdd hyn roedd Dafydd ap Gwilym (yn ei flodau 1330-50) sy'n cael ei gydnabod yn un o feirdd gorau'r iaith Gymraeg. O ran rhyddiaith, cafodd chwedlau'r Mabinogi eu hysgrifennu rhwng 1050 ac 1170 mewn llawysgrif. Mae ganddyn nhw arddull gain a hiwmor braf, ac maen nhw'n parhau i swyno darllenwyr heddiw.

Mae'n ddiddorol nodi bod ymhlith noddwyr y beirdd roedd nifer o uchelwyr o dras Saesneg, yr hyn sy'n awgrymu bod rhai o'r teuluoedd hyn yn cael eu cymathu i mewn i ddiwylliant Cymraeg.

Hefyd, mae tystiolaeth bod rhai o'r ardaloedd gwledig a oedd wedi cael eu Seisnigeiddio yn ystod y goresgyniad Normanaidd yn dod yn fwyfwy Cymraeg eu hiaith yn yr Oesoedd Canol hwyrach.

Dros y cyfnod o'r nawfed ganrif i'r bedwaredd ganrif ar ddeg, roedd yr iaith wedi datblygu o Hen Gymraeg i Gymraeg Canol erbyn yr ail ganrif ar ddeg, ac i Gymraeg Fodern Gynnar erbyn y bymthegfed ganrif ar ddeg.

Ond erbyn hynny, roedd datblygiadau dros y ffin yn dechrau bygwth safle'r Gymraeg. Ers Statud Rhuddlan ym 1284, roedd cyfreithiau Saesneg wedi bod yn disodli'n fwyfwy'r hen gyfreithiau Cymreig, a gyda threigl amser, daeth yn arferol i ddogfennau swyddogol yng Nghymru gopïo'r rhai Saesneg - mewn ffurf ac mewn iaith. Yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ystod y bymthegfed ganrif, yn Lloegr cymerodd Saesneg le Ffrangeg a Lladin fel iaith cyfraith, gweinyddiaeth, a bywyd cymdeithasol y dosbarth uchaf, ac felly o ran dogfennau swyddogol yng Nghymru.

Felly nid yw'n syndod i'r uchelwyr ddechrau teimlo bod angen iddyn nhw ddod yn rhugl yn Saesneg. Ac yn barod, dechreuwyd ystyried y Gymraeg yn gyfrwng israddol ar gyfer gweinyddiaeth a materion eglwysig.

Wedyn, ym 1485, coronwyd Harri Tudur, disgynnydd i'r teulu Tudur o Benmynydd yn Ynys Môn, yn frenin Lloegr a Chymru, ac yn fy erthygl nesaf, gawn ni weld sut effeithiodd polisiau'r Tuduriaid ar y Gymraeg.

Ardal Crucywel

Taith Ade Bates



Ein arweinydd

Daeth 11 aelod o Gymdeithas Edward Llwyd ar daith gerdded y Sadwrn olaf mis Medi 2021. Dechreuon ni ger cyn-wersyll fyddin Cŵrt-y-Gollen y tu allan i Grucywel. Ymunodd cymysgedd o Gymry a dysgwyr â'i gilydd mewn cilfan ar y A40 am hanner awr wedi deg, fel arfer. Diolch byth yr oedd digon o le i bawb parcio yno a chadw pellter cymdeithasol priodol! Aethon ni ar lwybrau troed lan y bryn y tu cefn i'r gwersyll ac wedyn lan y bryn eto ar lwybr ceffyl. Roedd golygfeydd hyfryd ar ben y bryn.

Aethon ni tuag at Goed Cefn, coedwig sy'n perthyn i Goed Cadw ac sy'n llawn o glychau'r gog yn y gwanwyn. Crwydron ni o'i chwmpas a chawson ni ein picnic wrth eistedd ar foncyffion mawr cyfleus. I lawr i Grucywel wedyn a oedd dan ei sang gyda thwristiaid ac wedyn cerdded yn ôl wrth ochr afon Wysg i gyrraedd y A40 eto.

Y peth gorau i fi am y daith oedd bod pawb yn gyfeillgar ac yn cymdeithasu'n wych â'i gilydd reit o'r cychwyn. Roedd yn gyfle da i ddysgu am natur a hanes yr ardal wrth ddefnyddio iaith y nefoedd. Mae'r gymdeithas yn croesawu aelodau


newydd yn gynnwys dysgwyr ac mae teithiau cerdded yn digwydd (bron) bob wythnos. Mae manylion ar gael ar y dudalen nesaf.

Diolch i Ade am arwain ein taith, cawson ni lawer o hwyl, fel y byddech yn dychmygu wrth weld y llun.

Roedd 11 ohonom ni ar y daith yn cynnwys 5 o ddysgwyr ac ar un adeg roedd tri yn trafod cyrsiau roedden nhw wedi bod arno. Roedden nhw'n sôn am ba safon roedden nhw wedi cyrraedd ac roedd y drafodaeth yn fywiog dros ben. Yn amlwg roedden nhw wedi cyrraedd y pwynt ble maen nhw'n meddwl yn Cymraeg. Roedd wir yn braf i wrando arnyn nhw.

Allech chi gyrraedd y pwynt yna hefyd a chael hwyl. Dewch ar ein teithiau pan dyn ni yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi!

Pos Val



Ar Draws

I Lawr

- | | |
|--------------------|--------------------|
| 1) Mynd yn niwlog | 1) Diffyg |
| 2) Pitw | 2) Gohiro |
| 5) Enw bachgen | 3) Canolfan iechyd |
| 7) Llwybr | 4) Mwyaf agos |
| 8) Lle Aladdin | 6) Dirweddaeth |
| 10) Gadael argraff | 7) Derbynneb |
| 12) Erioed | 9) Symud ar iâ |
| 13) Mwy oer | 11) Mwy uchel |

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Teithiau Maes mis Medi 2021

Y De a'r Canolbarth

2 Hydref Ardal Castell Newydd Emlyn
Cylchdaith tua 6 milltir yn dilyn Afon Teifi i Genarth ac yn ôl. Peth dringo, cymedrol. Man Cyfarfod: Maes parcio yng nghanol y dref, ger y mart, tal. SA38 9BA
Cod post agosaf. SN306407
Alun Voyle 01267275636

9 Hydref Llanrhystud a Llan-non
Taith hawdd tua 6 milltir gydag un ddringfa allan o Llanrhystud at Castell Bach. Cychwyn drwy ddarganfod pentref Llan-non /Llansantffraid ac yna ymlaen i Llanrhystud ar lwybr yr arfordir. Yna heibio Castell Bach ac Alltgoch cyn disgyn at Felin Fach Cwm Peris, a dilyn llwybr hyfryd drwy'r cwm I Llan-non. Man cyfarfod: Maes Parcio Llan-non, Stryd yr Ysgol, gyferbyn a tafarn y White Swan. (SY23 5HY).
O'r De, troi i'r dde yn syth ar ôl yr arosfa bysus.
SN517671

Bethan a Richard Hartnup 01970 828533

16 Hydref Merthyr Tudful
Taith hamddenol, addas ar gyfer pob oedran, o gwmpas rhai o'r hen safleoedd hanesyddol a diwylliannol y dre. Tua 4 milltir. I'r rhai ohonoch sydd am ddod ar y trênn, mae trenau yn gadael Caerdydd Canolog ar 16 Hydref pob hanner awr – 08.26, 08.56, 09.26 – ac yn cymryd 64 munud i gyrraedd Merthyr. Byddaf yn ymuno â'r trênn 08.56 o Gaerdydd yn Ffynnon Taf (09.15). Mae'r orsaf ym Merthyr rhyw bum munud o faes parcio Castle Street. Unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r daith neu'r trenau, ffoniwch fi ar 07989 451348. Man Cyfarfod: Prif faes parcio canol y dre. O'r fynedfa yn Castle Street, ewch drwy'r maes parcio i'r pen uchaf wrth gefn Canolfan Soar. Mae tâl o £1 i barcio trwy'r dydd (arian yn unig).
SO049064
Alan Williams 07989451348

23 Hydref Ardal Safle Treftadaeth 14 Loc, Casnewydd.

Cylchdaith tua 5 milltir o Ganolfan 14 Loc, o gwmpas Gwarchodfa Allt Yr Yn. Llwybrau serth sydd yn gallu bod yn fwdlyd. Peth hanes diwydiannol. Man Cyfarfod: Maes Parcio'r Ganolfan, Tâl. NP10 9GN,
Cod post agosaf. ST279886

Shelagh Fishlock 07951234618

30 Hydref Mynydd Gellionnen

Cylchdaith tua 7 milltir, dringo, cymedrol ar y cyfan, ond fydd yna ddwy ddringfa serth ond byr. Golygfeydd hyfryd Maes parcio'r RSPB ar yr heol o Glydach i Graig-cefn-parc - a fydd ar y dde ar ôl pasio tafarn y New Inn SA6 5SU
SN682026

Eirian Davies 01792844821

Gwynedd a Môn

2 Hydref Traeth Penllech Pen Llyn

Hanesion lleol a dysgu am fywyd môr Cylchdaith 5m ar y traeth a llwybrau/ lonydd gwledig heibio Eglwys Llangwinnadl. Maes Parcio Traeth Penllech rhwng Tudweiliog a Llangwinnadl. SH205340

Margiad Berthaur 01758770203 0781620179
a Nia Jones 01248351541 0785554132

9 Hydref Troed yr Arennig Fawr

Daeareg, celf a llenyddiaeth yr Arennig Fawr. Llwybrau gwledig gwastad ond ychydig o godi tua'r diwedd camfeydd, posib yn wlyb, 6m. Man Cyfarfod: Ochor y ffordd, lôn Llidiardau ger tro o'r A4212 SH817393
Kenneth Brassil
07982800354 Ellis Davies 01678540
07769717374

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Geirfa

**16 Hydref Cylch Porthmadog/Tremadog/
Penmorfa/ Borth-y-gest** Hanesion ardal y Gest.
Lonydd trefol, llwybrau cyhoeddus, codi 400t un
gamfa 7m posib cwtogi ychydig Man Cyfarfod:
Arosfan ar ochor dde'r ffordd i Forfa Bychan
SH562380
Arwyn Jones 01766522085

23 Hydref Coedydd Maentwrog/ Felenrhyd
Manylion i ddilyn
Rhydian Williams a Jessica John

30 Hydref Taith i'w threfnu

Y Gogledd Dwyrain

2 Hydref Penmachno

Taith amrywiol gyda pheth dringo yma ag acw, tua
7m. Man Cyfarfod: Ger yr HEN ysgol (yn y llan, dros
yr afon) – ewch rhwng y dafarn a'r eglwys a throi YN
SYTH i'r dde. SH791507
**Elizabeth Roberts 01492 640591 a Mair
Owens 01492 640114**

9 Hydref Nercwys a'r Cylch

Taith hamddenol, peth dringo ysgafn ar y dechre. 4
– 5 m Capel Soar, Nercwys ger Yr Wyddgrug
SJ232609
Bryn a Frances Jones 01352 756606

16 Hydref Coedlannau Trelogan

Taith goediog uwch aber Afon Dyfrdwy, i lawr am yr
aber yna dringo'n raddol yn ôl. Tua 6m.
Canolfan Gymunedol Trelogan SJ118799
Iwan Roberts 07587044255 01824 703906

23 Hydref Abergele

Ar hyd lan y môr am Landdulas, i fyny am Rydyfoel
cyn dychwelyd heibio Castell Gwrych. Tua 5m.
Maes Parcio Traeth Pensarn ger Abergele
SH945787
Iona Evans 01745 860660

30 Hydref (*am 10.15) Moel Unben

Taith hamddenol ar hyd lonydd a llwybrau, peth
dringo i ben y foel i fwynhau golygfeydd. Tua 5m
Maes parcio Llanfair T.H. (*Sylwer ar yr amser
cyfarfod) Bydd angen symud y ceir i'r man cychwyn.
SH927703
R. Glyn Jones 01492 640227

Gerallt Gymro

Dyrchafu - to promote
Llym - strict
Blaenorol - former
Cymryd carcharorion - to take prisoners
Ymgyrch - campaign
Perffeithrwydd - perfection
Ŵr lys - courtier
Ymdrechu - to strive
Safonau - standards
Moesau - morals
Llithro - to slip
Deyrnas - kingdom
Ymestyn - to stretch
Ar garlam - at great haste
Dioddef - to suffer
Dweud y cwbl - says it all
Cipio - to capture
Arglwyddi'r Mers - Marcher Lords
Marchog - knight
Cadw llygaid ar - keep an eye on
Hawlio - to claim
Sarhau - to insult
Trosglwyddo stadau - to transfer estates
Osgoi'r hunllef - to avoid the nightmare
Hygoelus - gullible

Bocs-wraig

Bochau - cheeks
Bregus - fragile
Pêl rwyd - netball
Uchelgais - ambition
Balch - proud

Stori o'r ardd

Dychwelyd - to return
Clogwyni - cliffs
Cynhyrfus - exciting
Swynol felys - enchantingly sweet
Peri gofid - to instill fear
Adar y to - house sparrows
Blwch storio - store box

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Clebran mewn cyffro - chattering excitedly

Yn rheolaidd - regularly

Archebu - to order

Pysgnau - peanuts

Pwyso yn erbyn - to lean against

Rhybuddio - to warn

Herfeiddiol - challengingly

Miniog - sharp

Caead - lid

Deallus - intelligent

Darllen yn y Gymraeg

Iaith ysgrifenedig - written language

Iaith lafar - spoken language

Ffurfiol - formal

Ymdopi - to cope

Calon Blwm

Mwyngloddio - to mine

Diwydiant plwm - lead industry

Dirywio - to deteriorate

Mewnforion rhatach - cheaper imports

Addoldy - place of worship

Pŵer dŵr - water power

Gwrhydau - fathoms

Amodau - conditions

Bywyd diwylliannol - cultural life

Telenegion - lyrics

Llyn y Fan Fach

Chwedl - legend, story

Cysylltiedig â - connected to

Meddyginiaeth - medicine

Meddygon - physicians

Morwynig - maid, virgin

Camu - to stride

Cynig - to offer

Amod - term, condition

Eiddo - property

Gyrr - herd

Rhodd priodas - dowry

Ymgartrefu - to make a home

Gofid - worry

Angladd - funeral

Ynghyd â - together with

Diflanu - to disappear

Meddyginiaethol - medicinal

Iachau - to heal

Llinach - line, heritage

Cofnodi - to record

Treftadaeth - inheritance

Orwyr - great grandson

Henriet y Syffrajt

Pwerus - powerful

Streic newyn - hunger strike

Dylanwadu - to influence

Ymddygiad - behaviour

Strwythr - structure

Arwyddocaol - significant

Cymhleth - complicated

Sefyllfa - situation

Tlodi - poverty

Agwedd - attitude

Gêmau gwleidyddol - political games

Cymeradwyo - to recommend

Hanes y Gymraeg

Blaenorol - previous

Esblygu - to evolve

Dilynol - following

Parhau - to carry on

Tystiolaeth - evidence

Llenyddol - literary

Cysylltiedig â - connected to

Cyfansoddi - to compose

Gogoniannau pennaf - the prime glories

Cyfreithiol - legal

Ystyried - to consider

Creadigaeth - creation

Ysblennydd - splendid

Llychlynwyr - vikings

Benthyg - to borrow

Etifeddiaeth - inheritance

Trothwy - threshold

Tiroedd ffiniol - border lands

Goresgyn - to conquer

Arglwyddiaeth - lordship

Ymsefydlwr - settler

Disodl - to supplant

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ffrwythlon - fertile
 Tafodiaith - dialect
 Dilyyn - refined
 Coeth - pure
 Ffynnu - to prosper
 Cynhyrchu - to produce
 Rhyddiaith - prose
 Barddol - poetic
 Noddi - to patronise
 Yn ei flodau - in his prime
 Llawysgrif - manuscript
 Arddull gain - elegant style
 Cymathu - to assimilate
 Stadud Rhuddlan - Statute of Rhuddlan
 Treigl amser - the passage of time
 Gweinyddiaeth - administration
 Dogfen - document
 Cyfrwng israddol - subordinate medium

Ardal Crugywel

Cyn-wersyll fyddin - former army camp
 Cilfan - lay-by
 Priodol - appropriate
 Llwybr ceffyl - bridleway
 Golygfa - view
 Coed Cadw - the Woodland Trust
 Clychau'r gog - bluebells
 Boncyff - tree trunk
 Dan ei sang - full to bursting

Pos Val

Atebion

Ar Draws

- 1) Niwlo
- 3) Mân
- 5) Meredydd
- 7) Trac
- 8) Ogof
- 10) Argraffu
- 12) Byth
- 13) Oerach

I Lawr

- 1) Nam
- 2) Oedi
- 3) Meddygfa
- 4) Nesaf
- 6) Realaeth
- 7) Taleb
- 9) Sgïo
- 11) Uwch